TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

YMCA Tystysgrif mewn Hyfforddi Campfa Lefel 2

Yn gryno

Ydych eisiau dilyn gyrfa fel hyfforddwr ffitrwydd? Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r dechrau perffaith ichi, yn addysgu'r sgiliau a gwybodaeth theori ac ymarferol ichi ddod yn hyfforddwr cymwys.

Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi i gael gwaith yn y dyfodol mewn campfeydd/clybiau iechyd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd y rôl yn cynnwys cynnal ymgynghoriadau campfa, ymsefydlu ac ysgrifennu rhaglenni campfa sy'n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer cleientiaid.

Dyma'r cwrs i chi os...

...Unrhyw un sydd â diddordeb mewn gweithio yn y gampfa/clwb iechyd

...Pobl sydd â diddordeb mewn ffitrwydd ac iechyd

... Y rhai sy'n mwynhau gweithio gyda phobl yn ddyddiol

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...Unrhyw un sy'n dyheu am ddod yn Hyfforddwr Campfa.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs yn mynd i'r afael â llu o fodiwlau, gan gynnwys:

Anatomeg a Ffisioleg (arholiad)
Iechyd, Diogelwch a Lles mewn Amgylchedd Ffitrwydd (gorfodol)
Egwyddorion Ymarfer Corff, Ffitrwydd ac Iechyd (arholiad)
Gwybod sut i gefnogi cleientiaid sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol (gorfodol)
Cynllunio ac arwain ymarfer corff mewn campfa (ymarferol)

Bydd angen ichi fod yn hunan-gymhellol, gweithgar, prydlon ac ymrwymedig, yn frwd dros ddod yn hyfforddwr ffitrwydd cymwys ac yn benderfynol o lwyddo'r asesiadau ymarferol ac arholiadau theori, ynghyd ag ennill profiad ymarferol gwirfoddol mewn campfa ffitrwydd. Bydd angen ichi hefyd werthfawrogi bod y cwrs yn gofyn ichi ymrwymo i bresenoldeb a'r llwyth gwaith.

Byddwch yn cael eich asesu gan ddefnyddio cyfuniad o arholiadau, unedau gorfodol a gwaith campfa, cyn eich dyfarnu â Thystysgrif Gwobr YCMA Lefel 2 mewn Hyfforddi Ffitrwydd (campfa). Yn dilyn y cwrs, gallwch ddod o hyd i waith mewn campfa ffitrwydd breifat neu gyhoeddus, neu symud ymlaen at Ddiploma Gwobr YMCA Lefel 3 mewn Hyfforddi Personol (yn ddibynnol ar brofiad).

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyflogaeth mewn campfa ffitrwydd gyhoeddus neu breifat
Gwobrau YMCA - Diploma Lefel 3 mewn Hyfforddiant Personol (yn ddibynnol ar brofiad)

Gwybodaeth Ychwanegol

Addysgir y cwrs ar Gampws Crosskeys ar ddau ddiwrnod yr wythnos (dydd Llun a dydd

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mawrth) dros 12 wythnos, rhwng 9:15 a 4:30pm rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2021.

Wedi ichi gofrestru, byddwch yn derbyn llyfr YMCA ar feysydd yr arholiad, a byddwch angen ei astudio cyn dechrau'r cwrs.